

## Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol

Bu i sylw diweddar ar **Facebook** amlygu pryderon ynghylch cyflymder rhai cerbydau yn teithio drwy'r pentref. Fel y **Cyngor Cymuned** bu inni fod mewn trafodaethau maith gyda **Heddlu Gogledd Cymru** a'r **Adran Prifffyrdd** i geisio mynd i'r afael â'r broblem. Mae ffordd, fodd bynnag, y gallwn ni helpu'n hunain drwy leihau'r nifer o geir yn teithio trwy'r pentref ar gyflymder sylweddol. Yn y Carnifal y llynedd, bu i John Morris o Heddlu Gogledd Cymru ymweld â ni a bu iddo ein hysbysu o'r **Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol**, er mwyn inni sefydlu un ein hun. Bu iddo gofnodi enwau ond doedd dim digon o bobl *bryd hynny* i ofalu fod y cynllun yn ymarferol.



Tîm Gwylio Cyflymder  
Cymunedol ar waith yng Ngwent.

Pe bai digon o wirfoddolwyr, buasai modd bwrw ati gyda'r cynllun – mae'r Heddlu yn darparu'r holl offer diogelwch, yn cynnig hyfforddiant ac yn benthycu'r camera cyflymder i ddechrau. Os ydym ni'n llwyddo i gynnal cynllun llwyddiannus, bydd y Cyngor Cymuned yn fodlon ariannu ein hoffer ein hunain. I ofalu fod hyn yn llwyddo, bydd angen nifer ddigonol o wirfoddolwyr ynghyd â chydlynnydd. Mae'n rhaid i wirfoddolwyr fod dros 18 ac mae gwaith y cydlynnydd yn allweddol i fedru cynnal y grŵp. Os ydych chi'n fodlon bod yn wirfoddolwr, neu wirfoddol fel cydlynnydd yn arbennig, e-bostiwch eich manylion ata i ar [m.skerrett@btinternet.com](mailto:m.skerrett@btinternet.com).

### I bobl arbennig Dolwyddelan,

Bu i Mam, y diweddar Joan Wass o Glan Dwr, dreulio 30 mlynedd olaf ei bywyd yn Nolwyddelan wedi iddi symud yma'n 1987. Roedd hi bob amser yn hynod falch o'r pentref ac, efallai yn bwysicaf fyth, trigolion y pentref ac mae'n hawdd gen i ddeall pam. Bu i Mam dderbyn cefnogaeth a help sylweddol gennych chi, y trigolion arbennig, wrth i'w iechyd ddirywio yn y blynnyddoedd diweddar.

Mae'n bosib nad oedd hi bob tro'n deall neu yn dangos ei gwerthfawrogiad ei hun ond hoffwn i ddiolch ichi. Diolch yn fawr. Gerald, ynghyd â Helen ac Angie x

## Eglwys Sant Gwyddelan

### Bore Coffi Macmillan

Dydd Iau Medi'r 27

10.00yb tan 12.00yp

Plas Penaeldroch



### Gwasanaeth Gŵyl y

### Cynhaeaf

Medi 30ain am 9.30yb

Gwasanaeth ar y cyd i eglwysi lleol

